



Cymru Ifanc
Young Wales

Tachwedd 2018

This briefing is bilingual, [click here for the English version](#).

Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.



Contents

1. [Pobl ifanc yn holi arbenigwyr am Brexit mewn digwyddiad amser cwestiynau Cymru Ifanc a gadeiriwyd gan y BBC](#)
 2. [Canlyniadau Trawiadol Gwneud Eich Marc Cymru: 54,079 o bobl ifanc yn ymateb](#)
 3. [Cynnig eithriadau i'r Dreth Cyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal](#)
 4. [Estyn cynllun Fy Ngherdyn Teithio i breswylwyr 21 oed yng Nghymru](#)
 5. [Annog pobl ifanc i leisio eu barn ar ganllawiau gwrth-fwlio sydd wedi eu diweddarau](#)
-

Pobl ifanc yn holi arbenigwyr am Brexit mewn digwyddiad amser cwestiynau Cymru Ifanc a gadeiriwyd gan y BBC

Ar 24 Hydref, holodd pobl ifanc o bobl rhan o Gymru banel o arbenigwyr am Brexit, mewn digwyddiad Cymru Ifanc yn y Senedd.

Cafodd y digwyddiad ei gadeirio gan James Williams, gohebydd BBC Cymru Wales ar bwnc Brexit.

Aelodau'r panel oedd Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog dros Blant, Pobl Hyn a Gofal Cymdeithasol, Mari Arthur, Cyfarwyddwr Cynnal Cymru, Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, Dr Dave Williams, Cyngorydd CAMHs i Lywodraeth Cymru a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, a Ruth Coombs, Cyfarwyddwr Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.

Roedd y cwestiynau'n cwmpasu amrediad o bynciau, o ffermio i'r iaith Gymraeg, sicrhau cyflenwadau meddyginiaeth, y cysylltiadau rhwng Cymru a'r DU yn dilyn Brexit, hawliau dynol, cyllid, a gweithio tramor.

Roedd cyfleoedd i'r bobl ifanc leisio eu barn nhw hefyd, gyda'r cadeirydd ar brydiau'n gofyn i'r gynulleidfa beth roeddent hwy'n meddwl.

Cafodd y digwyddiad ei fwynhau'n fawr, a nododd un aelod o'r cyhoedd ba mor ddiddorol ydoedd. Dywedodd nifer o bobl ifanc o wahanol fforymau eu bod yn gobeithio trefnu i gwrdd er mwyn parhau eu trafodaethau am Brexit.

Hoffai Cymru Ifanc, unwaith eto, ddiolch i'r holl banelwyr, y cadeirydd, a'r noddwr, Vikki Howells AC, ond yn arbennig y bobl ifanc a fynychodd i ofyn eu cwestiynau. Diolch, hefyd, i gadeirydd bwrdd prosiect pobl ifanc Cymru Ifanc, Samuel Taylor, a gyflwynodd y noson.

Gallwch ddilyn gwaith Plant yng Nghymru a'n menter cyfranogiad, Cymru Ifanc, gan gynnwys pob digwyddiad, drwy gwblhau'r [ffurflen hon](#) a dethol 'pobl ifanc' fel y pwnc.

Canlyniadau Trawiadol Gwneud Eich Marc Cymru: 54,079 o bobl ifanc yn ymateb

Mae mwy nag 1.1 miliwn o bobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig yn penderfynu beth mae Aelodau'r Senedd leuenctid yn ei drafod yn Nhy'r Cyffredin.

Ar gyfer ymgyrch Gwneud Eich Marc eleni mae 1,111,580 o bobl ifanc wedi cymryd rhan, gan ei gwneud yn un o'r ymgyngoriadau leuenctid mwyaf o'r fath yn hanes y DU, gyda mwy nag 1 o bob 5 o bobl ifanc 11-18 oed yn cymryd rhan.

Mae pleidlais Gwneud Eich Marcyn cael ei chefnogi gan Awdurdodau Lleol, ysgolion, Senedd, Cyngor leuenctid Prydain a'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.

Yng Nghymru mae'r bleidlais yn cael ei chyd-drefnu a'i chefnogi gan fenter cyfranogiad Plant yng Nghymru, [Cymru Ifanc](#).

Mae'n rhoi llais i bobl ifanc ledled y wlad ar beth ddylai gael ei drafod ar feinciau gwyrdd

Ty'r Cyffredin gan Aelodau'r Senedd leuenctid.

Bydd pob mater yn cael ei drafod o fewn y siambr ddydd Gwener 9 Tachwedd yn ystod wythfed Senedd leuenctid y DU gan eistedd yn Nhy'r Cyffredin. Bydd trafodaeth eleni yn cael ei chadeirio gan John Bercow AS, Siaradwr Ty'r Cyffredin.

Y pum mater sydd wedi cael eu blaenoriaethu yw:

- **Rhoi terfyn ar droseddau cylllell** - Mae bywydau gormod o bobl ifanc yn cael eu colli i droseddau cylllell; mae angen i'r Llywodraeth wneud mwy i helpu i roi terfyn ar yr epidemigtroseddau cylllell.
- **Iechyd Meddwl** - Dylai gwasanaethau iechyd meddwl gael eu gwella gyda chymorth pobl ifanc; a dylent fod ar gael mewn ysgolion.
- **Tâl Cyfartal, Gwaith Cyfartal** - Rhoi'r un swm o dâl i bobl ifanc, os ydyn nhw'n gwneud yr un gwaith ag oedolion yn yr un swydd.
- **Trechu Digartrefedd** - Dylai fod gan bob person le i fyw a'r cyfle i fyw yn gyfforddus. Gadewch i ni wneud i hynny ddigwydd a rhoi terfyn ar ddigartrefedd.
- **Pleidleisiau yn 16 oed** - Rhoi hawl i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio ym mhob etholiad/refferendwm.

Gweler y canlyniadau llawn a rhannwch ein llwyddiant Gwneud Eich Marc:

www.ukyouthparliament.org.uk/makeyourmark/

Cynnig eithriadau i'r Dreth Cyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, wedi cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnig i eithrio'r sawl sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor.

Ar ôl annog awdurdodau lleol o'r blaen i eithrio'r sawl sy'n gadael gofal gan ddefnyddio pwerau disgresiynol presennol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ffurfioli'r drefn ddisgresiynol ar sail statudol.

Mae'r sawl sy'n gadael gofal yn grwp hawdd eu niweidio, ac mae'r pontio i fywyd fel oedolyn yn gallu bod yn arbennig o heriol iddynt.

"Byddai cyflwyno eithriad Cymru-gyfan ar gyfer pobl sy'n gadael gofal rhag talu treth y cyngor," yn ôl y ddogfen ymgynghori, "yn garreg filltir arwyddocaol mewn cefnogi pobl sy'n gadael gofal i bontio'n llwyddiannus i fywyd oedolyn a byw yn annibynnol."

Byddai'r eithriadau arfaethedig yn dechrau ym mlwyddyn ariannol 2019-2020, ar gyfer pobl rhwng 18 a 24 oed sydd wedi gadael gofal, gyda'r dreth gyngor yn daladwy ar eu pen-blwydd yn 25.

Mae'r ymgynghoriad ar waith tan **19 Rhagfyr 2018**.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy wefan Llywodraeth Cymru, yma.

Estyn cynllun Fy Ngherdyn Teithio i breswylwyr 21 oed yng Nghymru

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafniadaeth, Ken Skates AC, wedi cyhoeddi y bydd cynllun Fy Ngherdyn Teithio yn parhau tan o leiaf mis Mawrth 2020, ac yn ymestyn i bawb rhwng 16 ac 21 oed sy'n preswyllo yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae'r cynllun ar agor i bobl 16 i 18 oed sy'n preswyllo yng Nghymru, gan gynnig gostyngiad ar draean y pris ar deithiau bws am unrhyw daith yng Nghymru.

Dylai'r estyniad ddechrau yn gynnar yn Rhagfyr 2018. Nid oes angen i ddeiliaid presennol cardiau sy'n 16 i 18 oed wneud dim ar unwaith, ond dylent ailymgeisio i'r cynllun ychydig cyn i'r cerdyn presennol ddod i ben.

Y gobaith yw y bydd y cynllun yn annog defnydd bysiau am fwy o deithiau, gan arwain at lai o dagfeydd a llai o lygredd aer yn nhrefi a dinasoedd Cymru.

Gallwch ddysgu am gynllun Fy Ngherdyn Teithio [yma](#), a darllen rhagor oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#).

Annog pobl ifanc i leisio eu barn ar ganllawiau gwrth-fwlio sydd wedi eu diweddarau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gwrth-fwlio sydd wedi eu diweddarau, ac yn gofyn i bobl ifanc ddweud eu dweud.

Mae'r canllawiau yn adeiladu ar ymgynghoriadau ac ymgysylltu cynnar â phobl ifanc a rhanddeiliaid, gan geisio ymdrin â phryderon neu ymholiadau a godwyd ganddynt yn y camau cynnar hyn, fel diffiniadau i'r hyn sy'n cyfrif fel bwlio neu beidio.

I bobl ifanc, mae'r cynigion yn rhoi diffiniad o fwlio, beth ddylech ei wneud os cewch eich bwlio, a'r hyn y gallwch ei wneud os dwedwch wrth eich ysgol ac nad oes dim yn digwydd. Mae'n cynnwys canllawiau ar sut i ddelio â'r teimladau mae bwlio yn eu creu a beth i'w wneud os ydych yn poeni eich bod wedi bwlio rhywun.

I ysgolion, mae'r canllawiau yn cynnwys diffiniad o fwlio, mathau penodol o fwlio, cymhellion posibl, bwlio ar-lein, strategaethau gwrth-fwlio effeithiol, llywodraethu, amddiffyniad ac amrywiaeth o faterion eraill.

Y dyddiad cam am ymateb i'r ymgynghoriad gyda'ch barn chi yw **15 Chwefror 2019**.

Mae rhagor o wybodaeth ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dogfen ymgynghori hawdd ei darllen, copi o'r canllawiau ar gyfer plant pump i un ar ddeg oed, un ar gyfer pobl un ar ddeg i ddeunaw oed, a chopi ar gyfer ysgolion.

Gallwch weld yr holl wybodaeth hon [yma](#).



Cymru Ifanc
Young Wales

Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.



Contents

1. [Young People's Question Time](#)
2. [Record Breaking Wales Make Your Mark Results: 54,079 young people responded](#)
3. [Proposed Council Tax exemptions for care leavers](#)
4. [My Travel Pass scheme to extend to residents age 21 in Wales](#)
5. [Young people urged to have their say on updated anti-bullying guidance](#)

Young people quiz experts about Brexit at Young Wales question time event chaired by BBC

On the 24th of October, young people from across Wales asked a panel of experts about Brexit, at a Young Wales event in the Senedd.

The event was chaired by James Williams, BBC Cymru Wales correspondent on Brexit.

The panel members were Huw Irranca-Davies AM, Minister for Children, Older People and Social Care, Mari Arthur, Director of Sustain Wales, Meri Huws, the Welsh Language Commissioner, Dr Dave Williams, CAMHs Advisor to Welsh Government and Chair of Aneurin Bevan Local Health Board, and Ruth Coombs, Director of the Equality and Human Rights Commission Wales.

Questions covered a range of topics, from farming, to the Welsh language, to securing supplies of medicine, the relationship between Wales and the UK post Brexit, human rights, funding, and working abroad.

There were opportunities for the young people to have their say too, with the chair at times asking the audience what their thoughts were.

The event was widely enjoyed, with one member of the public noting how engaging it was. A few young people from different forums said that they hoped to arrange to meet to continue their discussions about Brexit.

Young Wales would like to, once again, say thank you to all the panellists, the chair, and the sponsor, Vikki Howells AM, but especially the young people who attended to ask their questions. Thank you too, to chair of the Young Wales young people's project board, Samuel Taylor, who introduced the evening.

You can keep up with the work of Children in Wales and our participation initiative, Young Wales, including events, by completing [this form](#) and selecting 'young people' as the topic.

Record Breaking Wales Make Your Mark Results: 54,079 young people responded

Over 1.1 million young people across the UK decide what Members of Youth Parliament debate in House of Commons.

This year's Make Your Mark campaign has seen 1,111,580 young people take part, making it one of the largest youth consultations of its kind in UK history, with than 1 in 5 of all young people aged 11-18 taking part.

The Make Your Mark ballot is supported by Local Authorities, schools, Parliament, the British Youth Council and the Department for Digital, Culture, Media & Sport.

In Wales the ballot is coordinated and supported by the Children in Wales participation initiative, [Young Wales](#).

It gives young people across the country a say on what is to be debated on the green benches of the House of Commons by Members of Youth Parliament.

Each issue will be discussed within the chamber on Friday 9th November during the UK Youth Parliament's eighth sitting in the House of Commons. This year's debate is due to be chaired by John Bercow MP, Speaker of the House of Commons.

The five issues that have been prioritised are:

- **Put an end to Knife crime** - Too many young people's lives are lost to knife crime; the Government need to do more to help end the knife crime epidemic.
- **Mental Health** - Mental health services should be improved with young people's help; and should be available in schools..
- **Equal Pay, Equal Work** - Give young people the same amount of pay, if they are doing the same work as adults in the same job.
- **Tackling Homelessness** - Every person should have a place to live and the opportunity to live comfortably. Let's make it happen and put a stop to homelessness.
- **Votes at 16** - Give 16 and 17 year olds the right to vote in all

See the full results and share our Make Your Mark success:

www.ukyouthparliament.org.uk/makeyourmark/

Proposed Council Tax exemptions for care leavers

Cabinet Secretary for Finance, Mark Drakeford AM, has announced that the Welsh Government is consulting on proposal to exempt care leavers from paying council tax.

Having previously encouraged local authorities to exempt care leavers using existing discretionary powers, the Welsh Government is looking at formalising discretionary relief on a statutory basis.

Care leavers are a vulnerable group, for whom the transition to adulthood can be especially challenging.

"Introducing a pan-Wales council tax exemption for care leavers," the consultation document says, "would be a significant milestone in supporting care leavers to transition successfully into adulthood and independent living."

The proposed exemptions would begin in the 2019-2020 financial year, for care leavers between 18 and 24, with council tax due on their 25th birthday.

The consultation runs until the **19th December 2018**.

You can respond to the consultation through the Welsh Government's website, [here](#).

My Travel Pass scheme to extend to residents age 21 in Wales

Cabinet Secretary for Transport, Ken Skates AM, has announced that the My Travel Pass scheme will continue until at least March 2020, and will extend to all people aged 16 to 21 resident in Wales.

The scheme is currently open to those aged 16 to 18 resident in Wales and offers a third discount on bus travel for any journey in Wales.

The extension should begin in early December 2018. Current 16 to 18 pass holders do not need to do anything right away, but should reapply for the scheme shortly before their pass is due to expire.

It is hoped the scheme will encourage bus usage for more journeys, leading to reduced congestion and air pollution in Wales' towns and cities.

You can find out about the My Travel Pass scheme [here](#), and read more from the Cabinet Secretary on the Welsh Government site [here](#).

Young people urged to have their say on updated anti-bullying guidance

The Welsh Government have released updated anti-bullying guidance, and are asking young people to have their say on it.

The guidance builds on early consultations and engagement with young people and stakeholders, attempting to address concerns or queries that they raised in those early stages, such as definitions of what is and is not bullying.

For young people, the proposals provide a definition of bullying, what you should do if you are bullied, and what you can do if you tell your school and nothing is happening. It includes guidance on how to deal with the feelings that bullying creates and what to do if you worry that you have bullied someone.

For schools the guidance covers a definition of bullying, specific types of bullying, potential motivations, online bullying, effective anti-bullying strategies, governance, protection and a variety of other matters.

The deadline to respond to the consultation with your views is **15 February 2019**.

There is more information available on the Welsh Government's website, including an easy-read consultation document, a copy of the guidance for five to eleven year olds, one for eleven to eighteen year olds, and a copy for schools.

You can find all of this information [here](#).

Young Wales - Cymru Ifanc | info@childreninwales.org.uk | 029 2034 2434 |

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch '**Diweddarau Proffil**' isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive, click '**Update Profile**' below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.